

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Hydref 8, 2019 am 7.30 o'r gloch.

www.cyngorllanelltyd.cymru

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 10, 2019

4. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 10, 2019

Eitem 4. Eitem 9.a. Llythyr (10/6/2019) oddi wrth Rheolwr Stadau, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth gofynwyd at ddyfodol Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'r wybodaeth yn cynnwys adroddiad ar gyflwr y toiledau a'r brydles.

Penderfynwyd trafod dyfodol y Toiledau yn cyfarfod mis Hydref.

Gyda chymorth Mr Gethin Corps, cyn gofalwr y Toiledau, cafwyd hyd i'r tap i gau cyflenwad dŵr i'r adeilad (16/9/2019). Ar 19/9/2019 cafwyd Swyddog o Dŵr Cymru i sicio y rhif meter ac roedd dŵr yn gollwn ond ddim yn gwybod yn lle. Roedd llawr y toiledau yn damp. Diffoddwyd y dŵr i'r adeilad.

Eitem 5a. Cafodd adroddiad ariannol y Clerc ei newid gan yr Archwilydd Mewnol. Cafodd Costau'r Clerc ei symud o Staff i Gweinyddu a chafodd Costau Cynrychioli (costau teithio Elfed ap Gomer i Gynhadledd Un Llais Cymru) ei symud i Staff. Roedd cywirdeb wedi ei wneud i'r taliad anghywir i G.W. Jones (£62.80 yn lle £62.40). Roedd materion hyn wedi cael ei roi yn glir i BDO gan yr Archwilydd Mewnol.

Eitem 4. Eitem 11.b. Gwnaethpwyd ymoliadau (11/9/2019) ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri os roedd ganddynt sylw ei wneud ar dorri'r coed. Derbyniwyd ateb ganddynt (19/9/2019) yn rhoi gwybod nid oes gwrthwynebiad i glirio'r rhododendron ond angen gwybod os rydym am dorri'r goeden dderw sy'n tyfu yn ganol y rhododendron. Gofynwyd i Carwyn Evans cysylltu gyda'r swyddog i dddangos pa waith bydd yn cael ei wneud. Maent yn cynig ariannu'r gwaith.

5. Materion Ariannol

a. Bil (27/09/2019) am £206.08 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2018/19 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO. (Llynedd roedd y bil am £426.90).

b. Llythyr (Medi 2019) oddi wrth Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020. Maent angen cymorth ariannol tuag at y treial bydd yn cael ei gynnal yng Nghaerberllan, Abergynolwyn rhwng 31 Gorffennaf ac Awst 2, 20120.

c. Llythyr (30/9/2019) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru. Amgáu mae ffurflen i'w gwblhau i roi taliadau a wneir i'r aelodau, taliadau fel defnyddio ffôn, costau teithio. Mae angen y wybodaeth cael ei gyhoeddi a'i ddangos i'r cyhoedd cyn Medi 30. Mae'r Panel angen y wybodaeth hefyd.

ch. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2019: £11,277.86.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (30/9/2019) oddi wrth Prosiect Coedwigoedd Glaw. Mae'n rhoi gwybod bod y prosiect yn weithgar yn ein hardal. Byddai'r swyddogion y prosiect yn falch cael bod yn bresenoldeb yn un o'n cyfarfodydd er mwyn ceisio lledaenu'r gair am amcanion a thargedau'r prosiect, a'r ffordd orau i ymgysylltu gyda thrigolion a thir berchnogion yr ardal. Maent hefyd angen sylw at y bwriad o osod byrddau dehongli yn y coedwigoedd.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/9/2019) oddi wrth Mabon ap Gwynfor, Ymgeisydd Plaid Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Dwyfor Meirionnydd. Llythyr i'w gyflwyno i'r Cynghorwyr y Cyngor. Mae angen cefnogaeth i gael Canolfan Ddiagnosis Canser yng Ngwynedd. Os cefnogi'r syniad mae angen llythyr/ebost, ac hefyd cael pobl i lofnodi'r llythyr.

b. Llythyr (24/9/2019) oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf yn rhoi gwybod mae 10 Swn Y Nant, Bontddu ar osod. Amgáu mae posteri gyda manylion.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

11. Materion Brys

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc